**DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /**

**WRITTEN STATEMENTS OF OPINION**

**A GYFLWYNWYD / TABLED ON**

**08/05/01**

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2001-0029 Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth/ Autism Awareness Week

09 May 2001 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

No Subscribers

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi bod tua 27,300 o bobl yng Nghymru ac arnynt anhwylder sbectrwm awtistiaeth sy’n gorfod wynebu oedi hir yn eu diagnosis ac yna gymorth addysgol annigonol a phrinder gwasanaethau cymorth i oedolion. Mae’n galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod anghenion pobl ar y sbectrwm awtistig a rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd ar gydweithio’n effeithiol i hwyluso gwasanaethau cymorth priodol a hybu ymwybyddiaeth; ac mae'n croesawu ymgyrch y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol yng Nghymru ‘Action for Autism’ sy’n tynnu sylw at anghenion pobl ag anhwylder sbectrwm awtistig a’u gofalwyr yng Nghymru.*

*The National Assembly notes, the estimated 27,300 people in Wales with an autism spectrum disorder who currently experience long delays in diagnosis followed by inadequate support in education and few support services as adults and calls on the Government of Wales to recognise the needs of people on the autistic spectrum and to issue guidance to local and health authorities on effective joint working to facilitate appropriate support services and raise awareness; and welcomes the National Autistic Society Wales campaign 'Action for Autism' which highlights the needs of people with an autistic spectrum disorder and their carers in Wales.*

## OPIN-2001-0028 Parch at Gymru sy’n Rhydd o Organebau wedi’u Haddasu yn Enetig/ Respect for GM-Free Wales

03 May 2001 Raised by Richard Edwards

5 Subscribers:

Rhodri Glyn Thomas
Geraint Davies
Val Feld
Ron Davies
John Griffiths LLB

*Mae’r Cynulliad hwn yn gofyn i berchennog Fferm Castell Cenlas, Sir Benfro i barchu dyhead y genedl, fel y’i mynegwyd drwy’r Cynulliad hwn, fod Cymru yn rhydd o Organebau wedi’u Haddasu’n Enetig.*

*This Assembly requests the owner of Castle Cenlas Farm, Pembrokeshire to respect the national aspiration, as expressed through this Assembly, for Wales to be GM-free.*

## OPIN-2001-0025 Ceiswyr lloches/ Asylum Seekers

02 May 2001 Raised by Cynog Dafis, Helen Mary Jones

3 Subscribers:

Geraint Davies
Rhodri Glyn Thomas
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn condemnio'r arferiad o gaethiwo ceiswyr lloches diniwed mewn sefyldiadau penyd yng Nghymru neu unrhywle arall yn y byd, ac yn erfyn ar Y Swyddfa Gartref y Deyrnas Gyfunol i newid ei pholisi yn y cyswllt hwn.*

*The National Assembly of Wales condemns the practice of confining innocent asylum seekers to penal institutions in Wales or anywhere else in the world and calls upon the UK Home Office to change its policy on this regard.*

## OPIN-2001-0024 Condemnio'r ffordd y mae George Bush wedi cefnu ar Gytundeb Kyoto/ Condemnation of George

# Bush's dismissal of the Kyoto Agreement

02 May 2001     Raised by Mick Bates, Richard Edwards, Phil Williams

2 Subscribers:

Geraint Davies
Rhodri Glyn Thomas

*Mae'r Cynulliad hwn yn condemnio'r Arlywydd George Bush am ei anwybodaeth o'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar Gymru a'r byd ehangach.*

*Fel prif gynhyrchwr allyriannau sy'n niweidiol i'r amgylchedd, mae'r Cynulliad hwn o'r farn y dylai'r UDA wneud ymdrech bendant i roi'r amgylchedd o flaen busnes mawr, y blaned o flaen budd, trwy ymrwymo i sicrhau mwy o ostyngiad ar allyriannau CO2 na'r lefel a gyhoeddwyd yng nghytundeb Kyoto.*

*This Assembly condemns President George Bush for his ignorance on environmental issues that impact on Wales and the wider World.*

*As the major producer of harmful emissions into the environment, this Assembly believes that the USA should make a concerted effort to put the environment ahead of big business, the planet ahead of profit, by committing itself to cutting CO2 emissions over and above that stated in the Kyoto agreement.*